IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 22 MEDI 2017

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Cynghorydd Jackie Parry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard a/ac Taylor |

5 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

6 :

Ymgeiswyr: Mr Steven Salaman

Awdurdod Cyfrifol: Tony Bowley, Heddlu De Cymru

Y Cais

Cais ar gyfer trwydded safle a dderbyniwyd gan Mr Steven Salamon. Gwnaeth yr ymgeisydd gais am Drwydded Safle gan roi'r disgrifiad canlynol:

> ”Uned fanwerthu yw'r safle yn Arcêd y Castell yn Nghanol Dinas Caerdydd, sy'n cynnwys llawr gwaelod a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer manwerthu alcohol o safon uwch, yn benodol cwrw crefft, gwirodydd a gwinoedd cain. Caiff yr uned ei defnyddio'n bennaf ar gyfer cyflenwi alcohol i'w yfed oddi ar y safle ond bwriadwn hefyd gynnig samplau i gwsmeriaid ar y llawr gwaelod.”

Cynigiwyd y gweithgaredd trwyddedadwy canlynol:

> Cynnig alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
> O ddydd Llun i ddydd Gwener: 08:30 tan 17:30
> Sadwrn: 08:30 tan 18:00
> Dydd Sul: 10:30 tan 17:00
> Yn ystod mis Rhagfyr: Dydd Llun i Ddydd Sadwrn 08:30 i 20:00

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Siaradodd Mr Tony Bowley ger bron yr Is Bwyllgor ar ran Heddlu De Cymru. Hysbyswyd aelodau fod yr ymgeisydd yn chwilio trwydded safle a fyddai'n caniatáu gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle o safle yn Arcêd y Castell. Roedd Heddlu De Cymru yn awyddus i gael amod ar y drwydded safle a fyddai'n atal gwerthu alcohol mewn cynwysyddion gwydr ar ddyddiau pan oedd digwyddiadau mawr yn digwydd yng Nghanol y Ddinas.

Nododd Mr Bowley fod yr ymgeisydd yn berchennog parchus ar fusnes yng nghanol y ddinas. Byddai'r safle newydd, fel y'i cynigiwyd, yn wahanol i unrhyw safle arall yng nghanol y ddinas, i'r graddau mai dim ond nwyddau alcohol a werthid.

Hysbyswyd aelodau fod nifer yr anafiadau cyn 2005 oedd yn ymwneud â gwydr yng Nghanol y Ddinas ar raddfa oedd yn annerbyniol. Yn ystod 2005 cyflwynwyd amod

ar drwyddedau safle i geisio cyfyngu ar faint o wydr a oedd yng Nghanol y Ddinas, yn enwedig ar adegau o risg uchel, h.y. wedi 2300 a thrwy'r dydd ar ddyddiau digwyddiadau mawr. Erbyn 2007 roedd nifer yr anafiadau a oedd yn ymwneud â gwydr wedi gostwng o 133 i 13.

Rhestrodd Mr Bowley nifer o drwyddedau safle oedd ag amod tebyg yn ei le. Cyfeiriwyd hefyd at ddigwyddiad a ddigwyddodd yng Nghanol y Ddinas am 0355 y diwrnod hwnnw, lle'r anafwyd dau berson yn ddifrifol. Potel win oedd yr arf a ddefnyddiwyd gan yr ymosodwr.

Wrth ymateb i gwestiynau, nododd Mr Bowley fod y rhan fwyaf o ymosodiadau â gwydr yn digwydd ar y stryd, y tu allan i safleoedd trwyddedig. Roedd hi'n anodd profi o le daeth y gwydr. Y mathau mwyaf cyffredin o wydr a ddefnyddir yw poteli Stella Artois, poteli Heineken a photeli siampaen. Ni chafwyd digwyddiadau ar ddyddiau digwyddiadau mawr ac roedd Mr Bowley yn ystyried fod prinder argaeledd gwydr yng Nghanol y Ddinas wedi helpu i ostwng digwyddiadau i sero. Doedd dim data o gwbl gan Mr Bowley ynghylch nifer y digwyddiadau cyn 2005 a ddigwyddodd ar ddyddiau digwyddiadau mawr. O brofiad personol roedd yn cofio y bu pedwar ymosodiad yn defnyddio gwydr mewn un digwyddiad.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

Cyflwynodd Mr Salaman ei gais. Nododd Mr Salaman iddo fod yn ddeiliad trwydded bersonol ers cyn 2005 yn Wally's Delicatessen yn yr Arcêd Brenhinol. Mae trwydded safle Wally's Delicatessen yn caniatáu gwerthu alcohol mewn cynwysyddion gwydr i'w yfed oddi ar y safle, gan gynnwys ar ddyddiau digwyddiadau mawr, er bod cyfyngiad mewn grym ar gyfer yfed ar y safle.

Roedd Mr Salaman o'r farn fod y cais am amod gan Heddlu De Cymru er mwyn cefnogi eu nod o leihau nifer y digwyddiadau oedd yn ymwneud â gwydr rhag digwydd. Roedd Mr Salaman o'r farn nad oedd tystiolaeth i gefnogi'r farn fod gwerthiant alcohol i'w yfed oddi ar y safle gan fasnachwyr annibynnol o safon uchel yn achos i unrhyw broblemau.

Derbyniwyd fod y polisi dyddiau digwyddiadau mawr wedi bod yn llwyddiannus yn lleihau cyfanswm nifer yr ymosodiadau oedd yn ymwneud â gwydr. Fodd bynnag, caniateir Wally's Delicatessen yn yr Arcêd Brenhinol ar hyn o bryd i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle mewn cynwysyddion gwydr heb erioed beri problem. Cynigiwyd na fyddai'r nwyddau a werthid yn Wally's Liquor Cellar wedi eu hoeri. Ni fydd oergelloedd ar y safle. Nododd Mr Salaman y byddai'r safle yn cynnig dewis safon uwch o jîn, chwisgi, rym, fodca a fyddai'n gwerthu am oddeutu £40-50 y botel. Nid yw'r nwyddau hyn ar gael i'w gwerthu mewn cynwysyddion plastig. Ar ben hynny mae'r Arcêd Brenhinol yn cynnig staff diogelwch ychwanegol ar fynedfeydd bob pen i'r arcêd ar ddyddiau digwyddiadau mawr.

Cynghorwyd aelodau pe byddai'r amod yn cael ei dderbyn yna byddai'n rhaid i'r siop gau ar ddyddiau digwyddiadau a gyda digwyddiadau yn fwyfwy cyffredin yn y Ddinas roedd yr amod yn un masnachol cyfyng.

Gwnaeth Mr Salaman gais, os oedd aelodau am osod amod, yna gellid addasu'r amod, efallai i ganiatáu gwerthu ar ddyddiau digwyddiadau ond wedi eu cyfyngu am gyfnod o amser cyn dechrau digwyddiad; neu amod gydag eithriad o anrhegion a

lapiwyd; neu amod a fyddai'n gwahaniaethu rhwng cwrw/seidr a gwirodydd; ac yn olaf, pa un ai y dylid gweithredu polisi 'drws caeedig'.

Atebodd Mr Salaman gwestiynau gan yr Is Bwyllgor. Dywedwyd wrth aelodau nad oedd unrhyw gynnydd yng ngwerthiant alcohol yn Wally's Delicatessen ar ddyddiau digwyddiadau mawr. Fel rheol roedd gostyngiad mewn gwerthiant ar ddyddiau digwyddiadau mawr ac ni ragwelwyd y byddai Wally's Liquor Cellar yn llwyddo i werthu mwy. Nododd Mr Salaman fod digwyddiadau mawr yn 'wael ar gyfer busnes' am y byddai ei gwsmeriaid yn fwy tebygol o osgoi dod i ganol y ddinas.

Atgoffwyd aelodau fod Mr Salaman wedi derbyn yr amod a awgrymwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd gan Heddlu De Cymru yn ymwneud â gosod camerâu teledu cylch cyfyng yn y safle.

Crynhoi

Nododd Mr Bowley bod tystiolaeth gref i gefnogi'r farn po fwyaf y gwydr sydd ar gael yng Nghanol y Ddinas, mwya'n byd fydd nifer yr anafiadau yn ymwneud â gwydr. Tra bod yr ymgeisydd yn ddyn busnes llwyddiannus oedd yn bwriadu'r gorau roedd yn rhoi ystyriaethau masnachol o flaen diogelwch y cyhoedd.

Nododd Mr Salaman na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau gosod amod Heddlu De Cymru. Roedd unrhyw broblemau yn digwydd yn hwyr gyda'r nos. Roedd yr amod a geisid yn arwain at bolis o 'ur un maint i bawb' ac a oedd yn anhyblyg.

PENDERFYNWYD – Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Trwyddedu a Pholisi'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau wedi'u hawgrymu gan yr ymgeisydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am